



Dyddiad cyhoeddi: 03 Rhagfyr 2019

## Cerbyd a datblygiad Churchlands

Diolch i chi am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 4 Tachwedd 2019. Roeddech wedi gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Roedd y trê'n 8am o Lanisien yn orlawn eto heddiw, gan olygu nad oedd pobl yn gallu mynd ar y trê'n yn Llanisien nac yn Lefel Uchel y Mynydd Bychan. Unwaith eto, dim ond 2 gerbyd oedd gan y trê'n, ac yn aml, mae trenau canol bore yn cynnwys rhwng 3 a 5 cerbyd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn wag.
  - Pam mae TrC yn credu fod hyn yn synhwyrol neu'n dderbyniol?
  - Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod digon o le i'r cannoedd a miloedd o gymudwyr ychwanegol a fydd yn cael eu creu gyda'r datblygiad newydd yn Churchlands rhwng Llansvane a Phontpennau? O ystyried bod y rhwydwaith ffyrdd hefyd yn annigonol ac nad yw'r system reilffyrdd bresennol yn gallu ymdopi â'r nifer presennol o gymudwyr?

Rydym yn ysgrifennu atoch i gadarnhau bod eich cais wedi cael ei ystyried o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf), a bod Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi cwblhau'r broses o chwilio am yr wybodaeth roeddech wedi gofyn amdani.

Mae'n ddrwg gennym glywed am eich trafferthion diweddar gyda'n gwasanaethau. Rydym yn cyflwyno trenau ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn hon, gan ddarparu lle i 6,500 yn fwy o gymudwyr bob wythnos fel rhan o'r newid i'n hamserlen mis Rhagfyr. Hyd yma, rydym wedi cyflwyno 215 o wasanaethau yn ystod yr wythnos a byddwn yn cyflwyno 186 o wasanaethau ar ddydd Sul o fis Rhagfyr ymlaen. Mae'r cerbydau newydd sbon cyntaf ar y trywydd iawn i gael eu cyflwyno yn 2022, fel roeddem wedi'i addo, ac ar ôl hynny byddwn yn darparu gwasanaethau amlach. Mae ein hamserlen lawn ar gyfer gwella gwasanaethau ar gael yma: <https://trc.cymru/cy/beth-syn-digwydd-amserlen>

Yng nghyswllt datblygiad Churchlands, mae ein cynlluniau ar gyfer Metro De Cymru wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan: <https://trc.cymru/cy/metro-de-cymru>

Fodd bynnag, mater i Gyngor Caerdydd yw cynllunio trafndiaeth leol. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Caerdydd i helpu i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig o ran cynllunio a chyflawni'r Metro.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru